GENERAL TEACHING COUNCIL FOR WALES
CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

COFNODION PYMTHEGFED CYFARFOD AR HUGAIN CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU

DYDDIAD: 28AIN EBRILL 2009

LLEOLIAD: GREGYNOG, GER Y DRENEWYDD

Yn Bresennol:
Aelodau:

Mal Davies (Cadeirydd)	Gareth Jones
Jacquie Turnbull (Dirprwy Gadeirydd)	Hélène Mansfield
Phil Bassett	Jane Morris
Frank Bonello	Suzanne Nantcurvis
Beth Davies	Sue O'Halloran
Elwyn Davies	Hugh Pattrick
Susan Davies	Jane Setchfield
Roberto De Benedictis	Cleo Sollars
Sheila Drayton	Anna Spokes
Mike Edwards	Sarah Stockford
Ian Guy	Jacky Tonge
Angela Jardine	

Ymddiheuriadau:

Tim Cox	Anne Robertson

Swyddogion:

Gary Brace	Prif Weithredwr
Hayden Llewellyn	Dirprwy Brif Weithredwr (Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol)
Julia Evans	Dirprwy Brif Weithredwr (Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)
Karen Evans	Rheolwr Polisi a Chynllunio
Jo Read	Ysgrifenyddes y Cyngor
Joy Austin	Cynorthwyydd Gweithredol i'r Prif Weithredwr

1. Croeso a Sylwadau Agoriadol

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i bymthegfed cyfarfod ar hugain y Cyngor.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Tim Cox ac Anne Robertson.

1.3 Estynnodd y Cadeirydd groeso hefyd i Judy Moorhouse (Cadeirydd, Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr) a Gavin Scott (Cyfarwyddwr Cyllid a Gweinyddiaeth, Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban) a oedd yn mynychu'r cyfarfod fel arsylwyr.

1.4 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddwyieithog. Estynnwyd croeso i'r rheiny a oedd yn arsylwi o'r oriel gyhoeddus.

1.5 Hysbyswyd yr aelodau bod lleoliadau wedi'u cadarnhau ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer cyfnod 2009-10 yn unol â chyfarwyddyd yr aelodau yng nghyfarfod blaenorol y

Cyngor. Byddai'r calendr cyfarfodydd terfynol ar gyfer 2009-10 yn cael ei ddosbarthu i'r aelodau drwy'r post.

1.6 Adroddodd y Cadeirydd hefyd bod trefniadau wedi'u cadarnhau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau gynnal ei chyfarfod blynyddol gyda'r aelodau ar 20fed Hydref 2009 ym Mhontypridd.

2. Datganiadau o Ddiddordeb

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

3. Gohebiaeth y Cadeirydd

3.1 Tynnodd y Cadeirydd sylw at ohebiaeth gyda'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ynghylch dau fater.

3.2 Roedd y Cadeirydd wedi holi yn y lle cyntaf am oblygiadau'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorchwyl Athrawon Anabl dan arweiniad Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr yng ngoleuni ymchwiliad ffurfiol y Comisiwn Hawliau Anabledd, '*Maintaining Standards: Promoting Equality'.* Nododd ymateb y Gweinidog, dyddiedig 18fed Chwefror, fod y ddeddfwriaeth yn gydnaws ond bod rhai mân newidiadau wedi'u bwriadu ar gyfer yr arweiniad. Dywedodd nad oedd yn ymddangos bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod y diffiniad gwahanol o 'anabledd' fel yr awgrymwyd yn y Ddeddf.

3.3 Roedd yr ail eitem o ohebiaeth i sylw'r aelodau at y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau lle cyflwynwyd papur safbwynt y Cyngor ar *Gydlyniant a Chysondeb mewn Addysg 14-19 – yr achos dros hunanreoleiddio mewn Addysg Bellach.* Roedd yr ymateb dyddiedig 20fed Mawrth 2009 yn croesawu gwaith y Cyngor ond yn nodi bod angen i benderfyniadau sylfaenol gael eu gwneud ynghylch rheoleiddio'r sector ehangach.

4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 6ed Chwefror 2009

4.1 Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir.

Materion yn codi:

4.2 Cofnod 15: Tystiolaeth i Gonfensiwn Cymru Gyfan: Adroddodd y Cadeirydd y byddai'r Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Weithredwr yn rhoi tystiolaeth lafar ar sail cyflwyniad y Cyngor ar 14eg Mai 2009.

4.3 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5. Derbyn hysbysiad am unrhyw faterion y dymuna aelodau eu codi mewn perthynas â'r Eitemau a nodir ar yr Agenda 'Er Gwybodaeth' (17 i 20)

5.1 Ni hysbyswyd am unrhyw eitemau.

6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd 10fed Mawrth 2009

6.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn gan y Prif Weithredwr a chynghorwyd yr aelodau y byddai'r holl faterion yn cael eu trafod ar agenda'r cyfarfod ac eithrio dau.

Materion yn codi:

6.2 Cofnod 2.2: Cynhadledd Ryngwladol y Cynghorau Addysgu 2009: Hysbysodd y Prif Weithredwr yr aelodau bod trefniadau'r gynhadledd bron yn eu ffurf derfynol. Roedd gwahoddiadau wedi'u cyhoeddi ar 16eg Mawrth 2009 i'r aelodau fynychu'r Derbyniad Diodydd, a gâi ei gynnal gan y Gweinidog Jane Hutt, AC, yn y Senedd a chroesawyd ymatebion.

6.3 Cofnod 4: Cynllun Corfforaethol 2009-12 a Chynllun Gweithredol 2009-10: Hysbyswyd yr aelodau bod y ddau gynllun yn eu ffurf derfynol a'u bod wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Gweithredol ar 10fed Mawrth 2009. Roeddent yn cynnwys gohirio a hepgor rhai gweithgareddau bwriadedig, a drafodwyd yn helaeth yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor, na ellid eu cyflawni oherwydd y cyfyngiadau ariannol presennol.

6.4 Cofnod 4.3: Gofynnodd un aelod am eglurhad ynghylch y gyfradd chwyddiant a gymhwyswyd (3%) yn y Rhagamcanion Ariannol 3 Blynedd am ei bod yn deall bod y Mynegai Prisiau Manwerthu wedi bod yn nes at 0%. Adroddodd Julia Evans (Dirprwy Brif Weithredwr, Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol) fod y cyllidebau ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 (2010-11 a 2011-12) yn rhai dangosol yn unig ac y dylai fod elfen o gywiro unioni i'r amcangyfrifon am y gellid bod wedi gorgyfrif gwariant ac incwm fel ei gilydd. I enghreifftio hyn, nododd mai ychydig iawn o log banc oedd yn cael ei dderbyn ar hyn o bryd. Felly, roedd y ffigwr tybiannol o 3% yn rhesymol, a byddai'n caniatáu hefyd am gynnydd posibl i gyflogau staff.

6.5 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6.6 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

6.7 Ymunodd Jane Setchfield â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Polisi a gynhaliwyd 10fed Mawrth 2009

7.1 Adroddodd y Prif Weithredwr y byddai'r holl faterion yn cael eu trafod ar agenda'r cyfarfod.

Materion yn codi:

7.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

7.3 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

8. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu a gynhaliwyd 12fed Mawrth 2009

8.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn yn fras gan Sheila Drayton a thynnwyd sylw'r aelodau at y prif bwyntiau.

Materion yn codi:

8.2.1 Cofnod 2.2: Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu a gynhaliwyd 03.12.09: Byddai'r Pwyllgor yn treialu ffurf newydd ar gyfer cofnodion cyfarfodydd yn y dyfodol a fyddai'n rhoi manylion y camau gweithredu a'u cynnydd. Os byddai'n llwyddiannus, gellid cynnig bod y pwyllgorau eraill yn mabwysiadu'r un patrwm.

8.3 Cofnod 2.3: Cofrestr Rhoddion: Byddai'r Pwyllgor yn adolygu cofnodion newydd ar y Gofrestr Rhoddion ym mhob cyfarfod yn y dyfodol.

8.4 Cofnod 2.4: Cyfarfodydd yn y dyfodol: Roedd y Pwyllgor wedi cytuno bod angen pedwerydd cyfarfod yn ystod y flwyddyn galendr. Roedd y cyfarfod ychwanegol wedi'i drefnu ar gyfer 23ain Medi 2009.

8.5 Cofnod 3.2: Adolygiad o Gylchoedd Gorchwyl y Pwyllgorau Sefydlog: Roedd y Pwyllgor wedi trafod y cylchoedd gorchwyl, ac yn dilyn aralleirio rhai mân bethau, cytunwyd eu bod yn addas at eu diben.

8.6 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

8.7 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

9. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a gynhaliwyd 12fed Mawrth 2009

9.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn yn fras gan Hugh Pattrick, a adroddodd fod cynnydd wedi'i wneud mewn nifer o feysydd.

Materion yn codi:

9.2 Cofnod 5.2: Aelodau'r Pwyllgor Safonau Proffesiynol a gwneud penderfyniadau: Cafwyd trafodaeth fanwl yn arbennig ar y cynigion i sefydlu cronfa o aelodau ar gyfer y pwyllgor safonau proffesiynol, fodd bynnag, nid oedd y ffordd ymlaen yn eglur eto. Byddai trafodaeth bellach yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor ar 4ydd Mehefin 2009.

9.3 Cofnod 7: Trefniadau Swyddog Cyflwyno a lleoliadau cynnal gwrandawiadau: Disgwyliwyd y byddai modd gwneud arbedion ariannol yn sgil dyfarnu'r contract i gyfreithwyr Hugh James yn dilyn ymarfer tendro a wnaed ar sail pris sefydlog. Nodwyd mai'r arbedion a ragwelwyd fyddai £50,000 - £60,000 ar sail gwaith achosion tebyg mewn blynyddoedd blaenorol.

9.4 Gofynnodd un aelod am wybodaeth ynghylch pryd byddai hyfforddiant ar gael ar gyfer saith aelod sy'n athrawon a oedd wedi dechrau ar eu gwaith gyda'r Cyngor yn dilyn etholiad 2008. Adroddodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) y byddai'r mater hwnnw'n cael ei drafod unwaith y byddai'r Cyngor wedi rhoi terfyn ar ei benderfyniadau ar aelodau'r Pwyllgor Safonau Proffesiynol. Mynegodd un aelod ei bryder bod yr aelodau newydd yn cael eu difreinio oherwydd na chaent eistedd ar baneli. Yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor Cofrestru, penderfynodd y Cyngor y dylid caniatáu i'r saith aelod newydd eistedd ar baneli safonau proffesiynol os dyna'u dymuniad, unwaith y byddent wedi dilyn hyfforddiant disgyblu. Dywedodd y Prif Weithredwr fod angen darparu hyfforddiant sefydlu priodol i'r aelodau hynny a oedd yn newydd i gyfrifoldebau Safonau Proffesiynol y Cyngor a'r farn oedd nad oedd yr hyfforddiant gloywi a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 19eg Mehefin 2009 yn ddigon ynddo'i hun. Fodd bynnag, terfynodd ei sylwadau drwy ddweud bod digon o gefnogaeth i'r hyfforddiant fod yn agored i'r saith aelod newydd gael mynychu fel arsylwyr. Y gobaith oedd y byddai'r cynigion ar gyfer aelodau'r paneli safonau proffesiynol ar gael i'w trafod yng nghyfarfod y Cyngor ar 20fed Hydref 2009.

9.5 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

9.6 Nodwyd y cofnodion heb eu cadarnhau.

10. Rheolau Sefydlog Diwygiedig (CyngACC 17/09)

10.1 Cyflwynwyd y papur hwn gan y Prif Weithredwr a gwahoddwyd yr aelodau i drafod nifer fach o fân newidiadau i Reolau Sefydlog y Cyngor. Roedd y newidiadau wedi dod i'r fei yn dilyn ymarfer hunanwerthuso blynyddol yr aelodau ac ystyriaeth y Pwyllgor

Archwilio a Chraffu o'r adroddiad a roddodd fanylion canlyniadau'r ymarfer. Bwriad y newidiadau oedd gwneud y Rheolau Sefydlog yn fwy addas at ddibenion y dyfodol. Byddai gwahoddiad i'r Cyngor fabwysiadu'r newidiadau arfaethedig yn y cyfarfod nesaf pe ystyrid eu bod yn briodol.

10.2 Gofynnodd un aelod am gadarnhad mai 'Gweinidogion Cymru' oedd yn gwneud penodiadau cyhoeddus. Ni chodwyd unrhyw gwestiynau eraill. Roedd yr aelodau'n fodlon ar y newidiadau.

10.3 Cyflwynodd Elwyn Davies gynnig i amrywio Rheolau Sefydlog yng nghyfarfod nesaf y Cyngor fel y trafodwyd ac eiliwyd y cynnig gan Sheila Drayton.

10.4 Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

11. Rhaglen Athro Siartredig (CyngACC 18/09)

11.1 Cyflwynodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) y papur hwn mewn dwy ran.

11.2 Roedd y Cyngor wedi datblygu rhaglen i athrawon yng Nghymru ennill statws siartredig yn rhan o'i Fframwaith Datblygiad Proffesiynol. Roedd cynllun peilot y rhaglen hon wedi dechrau ym mis Medi 2007.

Cynnal peilot o raglen Athro Siartredig:

11.3 Yn gyntaf, adroddodd ar y modiwlau peilot a oedd wedi'u cwblhau a chynghorodd fod dau gynllun peilot pellach ar y gweill a gâi eu cwblhau yn ystod blwyddyn ariannol 2009-10. Byddai'r Sefydliad Ymchwil Addysgol Gymhwysol yn APCC yn cynnal gwerthusiad annibynnol o'r cynlluniau peilot. Cyllid grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cynnal peilot o'r rhaglen Athro Siartredig fyddai'n talu'r gost ariannol.

11.4 Gwahoddwyd yr aelodau i godi unrhyw gwestiynau a oedd yn deillio o'r adroddiad. Holodd un aelod a ddylai'r Cyngor archwilio ymhellach i'r gyfradd 'tynnu'n ôl' o'r cynlluniau peilot. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau y byddai'r gwerthusiad annibynnol yn amlygu unrhyw feysydd o bryder, os byddai rhai'n codi. Holodd aelod arall a ddylid ymchwilio i'r gyfradd tynnu'n ôl o'r modiwl *Cymhwyso TGCh mewn dysgu ac addysgu gyda golwg ar addysgeg*. Rhoddodd Hayden Llewellyn sicrwydd bod angen lefel uchel iawn o arbenigedd TG ar gyfer y modiwl hwn ac nid oedd yr adroddiad gwerthuso interim wedi amlygu unrhyw bryderon.

11.5 Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oedd gwrthdaro diddordeb am fod APCC yn darparu cyrsiau yn ogystal â chynnal yr adroddiad gwerthuso. Hysbyswyd yr aelodau bod trefniadau yn eu lle a sicrhaodd mai aelodau o staff a oedd yn rhan o'r tîm gwerthuso nad oeddent yn aelodau staff APCC oedd yn cynnal yr asesiad annibynnol o fodiwl APCC. Roedd hyn wedi bod yn bwynt o eglurhad penodol cyn i'r contract gael ei ddyfarnu.

11.6 Yn olaf, holodd un aelod a fu cyfle i gyfranogwyr ailgyflwyno'u portffolios os nad oeddent wedi bodloni safonau'r rhaglen. Cadarnhaodd y swyddogion fod cyfle o'r fath wedi'i gynnig.

Prif-ffrydio Athro Siartredig:

11.7 Hysbyswyd yr aelodau bod cynllun *llwybr portffolio at Statws Athro Siartredig* wedi'i drafod gan y Pwyllgor Cofrestru. Gwahoddwyd trafodaeth ynghylch pob un o'r cynigion drafft.

11.8 Tynnwyd sylw yn y lle cyntaf at strwythur arfaethedig y llwybr portffolio a oedd yn adlewyrchu'n fras strwythur rhaglen beilot y Cyngor a strwythur CyngAC yr Alban. Cynigiwyd y gallai nodweddion allweddol y portffolio fod yn fodiwl gorfodol o fewn

Hunanwerthuso ac adfyfyrio wedi'i ddilyn gan *Bortffolio tystiolaeth a sylwebaeth adfyfyriol bersonol*. Awgrymodd yr aelodau fod angen datblygu'r pwyntiau bwled ar gyfer pob modiwl ymhellach i adlewyrchu gogwyddau gwahanol rhwng y llwybr portffolio a'r llwybr 'a addysgir' tuag at statws Athro Siartredig.

11.9 Yna cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chefnogaeth ymgynghorydd. Roedd yr aelodau'n teimlo'n gryf y byddai cefnogaeth yn hanfodol i gyfranogwyr rhaglenni ond y byddai angen iddi fod yn gyson. Ystyriwyd hefyd y gair Saesneg 'adviser' a holwyd a fyddai'r gair 'coach' yn fwy priodol. Roedd y farn yn amrywio ar y pwynt hwn.

11.10 Aeth yr aelodau ymlaen i drafod tri opsiwn arfaethedig mewn perthynas ag ymgynghorwyr. Y rhain oedd, yn gyntaf, y gallai cyfranogwyr ddethol ymgynghorwyr oddi ar restr a ddarparwyd ar wefan CyngACC; gallai CyngACC neilltuo ymgynghorydd ac yn olaf, ni fyddai cynnig cefnogaeth ymgynghorydd a rôl y Cyngor fyddai asesu'n unig yn erbyn y safon Athro Siartredig. Roedd un aelod yn betrus i weld y Cyngor yn cymryd unrhyw rôl o ran darparu ymgynghorwyr am y gallai hyn olygu gwrthdaro diddordeb. Gan droi'n ôl i fater rôl y Cyngor yn y rhaglen, dywedodd rhai aelodau y dylai CyngACC osod y meini prawf a'r safonau a ffurfioli gweinyddiaeth y cynllun, ond y dylid chwilio am gorff arall i'w weithredu. Dywedodd un aelod y gallai fod yn fwy priodol i adran prifysgol gael y dasg o redeg y rhaglen. Dywedodd y Cadeirydd y gallai fod anhawster, fodd bynnag, o ran dod o hyd i sefydliad addas i redeg y rhaglen am ei bod wedi'i seilio ar ymarferwyr. Dywedodd aelod arall y byddai'n bwysig i'r grŵp ymgeiswyr gyfarfod â'i gilydd ac ystyried meddwl critigol ac mai argaeledd daearyddol fyddai'n datrys mater neilltuo ymgynghorwyr.

11.11 Gan symud drwy'r ddogfen, cafwyd trafodaeth ynghylch yr opsiwn i wneud y llwybr portffolio yn opsiwn dros dro a fyddai'n galluogi athrawon profiadol i ennill cydnabyddiaeth ac achrediad. Lleisiodd un aelod ei barn y dylai'r llwybr hwn fod yn agored yn barhaol am ei fod yn cynnig hyblygrwydd i unigolion a oedd yn gweithio'n rhan-amser; yn gweithio o gartref a/neu'n wynebu ymrwymiadau eraill. Rhoddodd y Cadeirydd sicrwydd mai'r bwriad oedd adolygu'r llwybr hwn yn hytrach na'i gau'n awtomatig ar ôl cyfnod cyfyngedig o amser a chefnogwyd yr opsiwn i gynnig hyblygrwydd.

11.12 Gan dynnu ar brofiad ymgeisydd llwybr cyflym ar y rhaglen CPCP, pwysleisiodd un aelod yr angen am feini prawf clir a oedd wedi'u hystyried yn ofalus gan ddilyn pwyntiau bwled, ynghyd â chanllawiau i ymgeiswyr eu dilyn.

11.13 Codwyd hefyd y cwestiwn a fyddai'r cymhwyster yn un 'am oes' neu a fyddai gofyn i ymgeiswyr wynebu cael eu hailasesu. Cytunodd y Cadeirydd fod hwn yn fater y byddai angen ei drafod yn ddiweddarach.

11.14 Amlygodd y Dirprwy Gadeirydd yr angen hefyd i'r Cyngor ystyried y trefniadau hirdymor ar gyfer rhedeg y rhaglen. Unwaith y byddai yn y brif ffrwd, y gobaith oedd y byddai niferoedd mawr o athrawon yng Nghymru yn ceisio ennill y statws.

11.15 Y pwyntiau olaf i'w trafod mewn perthynas â *Chynllun llwybr Portffolio at Statws Athro Siartredig* oedd: yn gyntaf, y gallai fod cynnig i ymgeiswyr nad oeddent wedi cyrraedd y safon ddisgwyliedig drwy'r llwybr portffolio astudio drwy'r llwybr 'a addysgir' a bod gwahaniaeth rhwng canlyniadau'r ddau lwybr a fyddai'n arwain at lefelau achredu gwahanol. Ystyriodd yr aelodau hefyd y gallai'r bobl a allai gymryd rôl ymgynghorydd gynnwys penaethiaid neu academyddion prifysgol. Cytunwyd y dylid datblygu'r fanyleb ar gyfer rôl yr ymgynghorydd.

11.16 Ystyriwyd costau ariannol y rhaglen yn y brif ffrwd a chadarnhaodd swyddogion mai'r bwriad oedd ailystyried a diweddaru'r costau. Pwysleisiodd un aelod y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ariannu'r rhaglen Athro Siartredig yn y brif ffrwd, yn unol â chyngor y Cyngor.

11.17 Yna tynnodd Hayden Llewellyn sylw'r aelodau at y *Llyfryn Arweiniad i Athrawon,* yn ei ffurf ddrafft, gan esbonio mai bwriad y ddogfen oedd nodi'r rheolau a'r gweithdrefnau ar gyfer ymgeisio, ac nid teclyn marchnata mohoni. Byddai'r rhaglen yn cael ei marchnata drwy wefan y Cyngor, digwyddiadau, datganiad i'r wasg a threfniadau eraill. Cynigiodd yr aelodau nifer fach o newidiadau i destun y llyfryn, sef:

- tudalen 5 – paragraff 3.4 – ychwanegu at "Five years or more teaching experience…" "or equivalent if part-time" a'r geiriau cyfatebol yn y Gymraeg;
- tudalen 10 – paragraff 4.3 - newid "There will be a number of provider partnerships…" i "There will be a small group…" a'r geiriau cyfatebol yn y Gymraeg;
- tudalen 19 – Costau gofal plant/gofal – ymestyn y testun i gynnwys gofalu am rieni oedrannus.

11.18 Roedd yr aelodau'n fodlon ar yr adroddiad ac ni chodwyd unrhyw bwyntiau eraill.

12. Ymateb CyngACC i ymgynghoriad Estyn 2010 (CyngACC 19/09)

12.1 Darparodd Karen Evans (*Rheolwr Polisi a Chynllunio*) gyflwyniad bras i'r papur hwn a roddodd ymateb y Cyngor i ymgynghoriad Estyn ar fframwaith ar gyfer arolygu darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru a lansiwyd ym mis Ionawr 2009. Roedd yr ymateb wedi'i seilio i raddau helaeth ar bapur safbwynt y Cyngor a ddrafftiwyd yn 2008. Roedd ymatebion a dderbyniwyd gan nifer fach o ymatebwyr drwy wefan CyngACC ac yn dilyn erthygl yn *Addysgu Cymru* hefyd wedi'u cynnwys.

12.2 Gwahoddwyd yr aelodau i drafod yr ymateb i'r ymgynghoriad a chytuno iddo, os tybiwyd bod hynny'n briodol.

12.3 Gofynnodd un aelod am eglurhad ynghylch a fyddai hunanwerthuso'n disodli'r angen am ragor o arolygwyr. Cynghorodd y swyddogion mai'r bwriad oedd bod hunanwerthuso'n ffurfio'r man cychwyn ar gyfer arolygiadau yn y dyfodol.

12.4 Lleisiodd aelod arall ei farn bod defnydd parhaus Estyn o dimau annibynnol i gynnal arolygiadau yn achosi anawsterau mewn ysgolion. Rhoddwyd eglurhad bod Estyn yn disgwyl bod mewn sefyllfa o gynnal pob arolygiad ei hun erbyn 2012 a deellid bod angen cyfnod trosiannol i gyrraedd y sefyllfa hon.

12.5 Ni chodwyd unrhyw bwyntiau eraill a chymeradwyodd yr aelodau'r ymateb i'w gyflwyno.

12.6 Cynigiodd y Cadeirydd y dylid dod ag eitem 14 ar yr agenda, *Gweithdrefnau a Rheolau Safonau Proffesiynol Diwygiedig* ymlaen i'w thrafod yn gynharach. Cytunodd yr aelodau i hyn.

13. Adroddiad cynnydd cyllid Sefydlu a DPC (CyngACC 21/09)

13.1 Darparodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) gyflwyniad bras i'r adroddiad hwn a roddodd ddata ar weinyddiaeth y Cyngor o'r Cyllid ar gyfer Sefydlu a DPC yng Nghymru. Darparwyd dadansoddiad hefyd ar wariant bwriadedig a gwariant gwirioneddol ar DPC.

13.2 Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau gyda chanlyniadau'r dadansoddiad manwl o wariant DPC a oedd ond ar gael ers i'r Cyngor gymryd y maes gwaith hwn.

13.3 Tynnwyd sylw'r aelodau at nifer y gweithgareddau DPC a oedd wedi'u seilio ar gyrsiau, sef tuedd a oedd yn ymddangos fel ei bod ar gynnydd o hyd.

13.4 Mynegodd un aelod ei siom mai dim ond 53-59% o athrawon DPC a oedd yn cymryd eu hawl lawn pan oedd diffyg cyllid yn gyffredinol ar draws Cymru. Fodd bynnag, rhoddodd Hayden Llewellyn sicrwydd bod y gyfradd ymateb wedi gwella'n sylweddol ers i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb ddwy flynedd yn flaenorol a bod rhai diffygion yn fach iawn. Adroddodd y newyddion cadarnhaol bod pob athro yng Nghymru a oedd yn gymwys i dderbyn cyllid DPC wedi derbyn y cyllid hwnnw drwy gynllun y Cyngor.

13.5 Aeth yr aelod ymlaen i ychwanegu bod y gostyngiad parhaus yn swm yr arian a oedd ar gael i ysgolion ar gyfer hyfforddiant drwy'r *Gronfa Ysgolion Gwell* yn parhau i beri anawsterau. Cytunodd un aelod, gan ychwanegu bod gan athro'r hawl i dderbyn hyfforddiant digonol.

13.6 Gwnaed yr aelodau'n ymwybodol hefyd bod niferoedd uchel o geisiadau am gyllid Sefydlu a DPC yn dod i law, a oedd yn dangos cynnydd ar y flwyddyn flaenorol.

13.7 Croesawodd yr aelodau yr adroddiad ac ni chodwyd unrhyw bwyntiau pellach.

14. Gweithdrefnau a Rheolau Safonau Proffesiynol Diwygiedig (CyngACC 20/09)

14.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, tynnodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) sylw at y newidiadau a draciwyd yn erbyn fersiynau presennol pob un o Weithdrefnau a Rheolau Safonau Proffesiynol presennol y Cyngor: Achosion disgyblu'n ymwneud ag athrawon cofrestredig; achosion Addasrwydd yn ymwneud ag ymgeiswyr i gofrestru; Apeliadau Sefydlu.

14.2 Hysbyswyd yr aelodau fod y newidiadau wedi codi yn sgil cyngor cyfreithiol, yn dilyn diwygiadau tebyg gan CyngACau eraill ac yng ngoleuni profiad. Roedd y diwygiadau wedi'u trafod a'u datblygu mewn dau gyfarfod o'r Pwyllgor Cofrestru a gwahoddwyd yr aelodau i'w hystyried yn derfynol a'u cymeradwyo i'w mabwysiadu, os tybiwyd bod hynny'n briodol.

14.3 Ni chodwyd unrhyw bwyntiau i'w hegluro a chymeradwyodd yr aelodau y tair dogfen i'w mabwysiadu.

15. Crynodeb Ystadegau Blynyddol 2009 (CyngACC 22/09)

15.1 Rhoddodd Hayden Llewellyn (*Dirprwy Brif Weithredwr, Cymwysterau, Cofrestru a Safonau Proffesiynol Athrawon*) gyflwyniad i'r aelodau ar wythfed Crynodeb Ystadegau'r Cyngor. Roedd wedi'i gynhyrchu gan ddefnyddio data a gadwyd ar y Gofrestr Athrawon Cymwys ac roedd yn cynrychioli ffynhonnell wybodaeth unigryw mewn perthynas ag athrawon cofrestredig yng Nghymru yn dilyn dyddiad cyfrifiad o 1af Mawrth 2009.

15.2 Atgoffwyd yr aelodau y câi Crynodeb Ystadegau 2009 ei gyhoeddi ar wefan CyngACC yn unig, yn dilyn penderfyniad a wnaed yng nghyfarfod blaenorol y Cyngor. Tynnwyd pwyntiau allweddol o'r data a'r dadansoddiad at sylw'r aelodau ynghyd â thueddiadau parhaus a rhai a oedd yn ymddangos.

15.3 Adroddodd Hayden Llewellyn fod nifer y ceisiadau am ystadegau a dadansoddiadau wedi cynyddu. Ar y cyfan roedd y ceisiadau'n dod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Estyn a chyrff addysgol eraill. Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod terfyn wedi'i osod yng Nghynllun Gweithredol 2009-10 fel y byddai pum diwrnod o amser swyddog yn cael eu neilltuo ar gyfer ceisiadau gan y Cynulliad am wybodaeth mewn perthynas â'r model cyflenwi athrawon i Gymru ond nodwyd y byddai tâl yn cael ei godi petai angen neilltuo rhagor o amser.

15.4 Croesawodd yr aelodau'r crynodeb a'r cyflwyniad ac aethant ymlaen i ofyn am feysydd ychwanegol o ddata a dadansoddi y gellid eu dosbarthu i'r aelodau'n dilyn y cyfarfod. Y rhain oedd:

- y gwahaniaeth rhwng dynion a menywod ymhlith penaethiaid fesul AALl
- y gwahaniaeth rhwng dynion a menywod ar Uwch Dimau Rheoli
- y gwahaniaeth rhwng dynion a menywod mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg
- Data ar athrawon sy'n gadael y proffesiwn

15.5 Gofynnodd y Dirprwy Gadeirydd am eglurhad ynghylch a oedd penderfyniadau diweddar y Cyngor yng ngoleuni'r cyfyngiadau ariannol presennol yn gwrthdaro â'r goblygiadau a nodwyd yn y *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.* Esboniodd y Prif Weithredwr fod gofyn i'r Cyngor sicrhau, drwy ofynion deddfwriaethol, bod data ar gael i'r Cynulliad, ond nad oedd y ddeddfwriaeth yn nodi na fyddai'r Cyngor yn codi tâl am wneud hynny.

15.6 Nododd un aelod fod swyddogion yn darparu dadansoddiadau am ddim, ar ben darparu data. Roedd aelod arall yn cefnogi'r posibilrwydd y gallai'r Cyngor godi ffi yn y dyfodol. Byddai'r mater hwn yn cael ei drafod ymhellach yn y Pwyllgor Gweithredol.

15.7 Gwnaed pwynt pellach am lefel y gwaith o gasglu a dadansoddi data a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o gymharu â'r lefel yn Lloegr. Lleisiodd un aelod ei siom at y sefyllfa yng Nghymru.

15.8 Ni chodwyd unrhyw bwyntiau pellach.

16. Y Gofrestr Risg (CyngACC 23/09)

16.1 Wrth gyflwyno'r papur hwn, tynnodd Julia Evans *(Dirprwy Brif Weithredwr, Cyllid, Personél a Gwasanaethau Corfforaethol)* sylw'r aelodau at broffil risg presennol y Cyngor.

16.2 Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu a'i diweddaru bob chwarter gan yr Uwch Dîm Rheoli yn rhan o broses rheoli risg y Cyngor. Cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf ar 17eg Mawrth 2009. Roedd yr adolygiad diweddaraf wedi cynnwys ymgorffori sylwadau gan Archwilwyr Mewnol CyngACC yn dilyn adolygiad o aeddfedrwydd risg y Cyngor: daethpwyd i'r casgliad bod CyngACC 'wedi diffinio'r risg'.

16.3 Roedd y gofrestru wedi'i darparu i'r aelodau fel atodiad i'r papur a thynnwyd sylw at golofn o wybodaeth a ddangosodd 'risg weddilliol'. Roedd hyn yn rhoi manylion am debygolrwydd ac effaith risg ar ôl cyflwyno cam diogelu. Un o'r argymhellion yn sgil yr adolygiad Archwilio Mewnol oedd y dylai'r Cyngor drafod 'proffil risg' y sefydliad bob blwyddyn. Roedd hyn yn dangos bod proffil risg y Cyngor yn weithredol ac yn ariannol yn bennaf. Gwahoddwyd yr aelodau i gynnig sylwadau.

16.4 Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ar nifer o bwyntiau, sef: roedd un aelod wedi disgwyl i lefel fesuredig y risg fod wedi cynyddu o ganlyniad i gyfyngiadau ariannol presennol y Cyngor ac enghreifftiau o risg wleidyddol. Ymatebodd y Prif Weithredwr fod y mater yn cael ei drin a'i drafod yn Risg 3.

16.5 Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau bod y canlyniadau oherwydd gohirio/hepgor gweithgarwch yn sgil cap y Gweinidog ar y ffi gofrestru wedi'u hamlygu yn llythyr y Cadeirydd at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a anfonwyd ar 21ain Ebrill 2009.

17. Unrhyw fater arall

17.1 Cynghorodd y Cadeirydd yr aelodau fod Chris Tweedale o APADGOS wedi cael gwahoddiad i roi cyflwyniad i'r aelodau ar y *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yng Nghymru*. Byddai hyn yn digwydd ar 14eg Medi 2009 yn ystod yr egwyl ginio rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor Polisi a'r Pwyllgor Gweithredol. Byddai gwahoddiadau'n cael eu hanfon at yr holl aelodau maes o law.

17.2 Nid oedd unrhyw fater arall yn y Sesiwn Gyhoeddus.

17.3 Yna symudodd y Cyngor i Sesiwn Breifat.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 9fed Gorffennaf yng Ngwesty Castell Rhuthun, Rhuthun